CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Canllawiau i'r Pwyllgorau Craffu Medalau a Gwobrau

**Ymlaen llaw:**

1. Bydd pob enwebiad a gewch yn cael ei gyflwyno gyda ffurflen enwebu wedi'i chwblhau, geirda a chadarnhad o ganiatâd yr ymgeisydd / tîm i gael eu henwebu.
2. Gall rhai enwebiadau hefyd gynnwys datganiad 'Effaith ar Yrfa' a gaiff ei llenwi gan yr ymgeisydd/y tîm sy'n cael eu henwebu. Os cyflwynir y datganiad, bydd yr ymgeisydd/y tîm yn nodi a ellir rhannu'r ffurflen â'r pwyllgor llawn neu a fyddai'n well ganddynt i'r Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd os yw'n absennol) yn unig edrych arni. Yn yr achos hwnnw bydd y Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd) yn ystyried effaith yr wybodaeth hon ar wybodaeth yr enwebiad, ac yn rhannu ei ystyriaethau â'r Pwyllgor Craffu pan fydd yn cyfarfod AC NID cynnwys y datganiad ei hun.
3. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau yn derbyn yr enwebiadau perthnasol cyn eu dyddiad cyfarfod cytunedig, gan roi amser iddynt ddarllen ac ystyried y cynnwys.
4. Dylech ymgyfarwyddo â safbwynt y Gymdeithas ynghylch Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn enwedig Ecwiti.
5. I gynorthwyo'r broses graffu, bydd cyfeiriad e-bost cyswllt pob aelod o'r pwyllgor craffu yn cael ei rannu ag aelodau eraill y pwyllgor.

**Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu:**

6. Pwyllgor Craffu Effaith:

   Y cworwm yn y Pwyllgor Craffu Effaith yw pedwar (4). Gall hyn fod yn unrhyw gyfuniad o Gymrodyr a Chymrodyr er Anrhydedd.

   Os daw unrhyw aelod o'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol na all fod yn bresennol, dylai gysylltu â staff CDdC i'w hysbysu cyn gynted â phosibl cyn y cyfarfod.

   Yna, gellir dilyn y prosesau canlynol:

a. Os bydd digon o amser i recriwtio aelod newydd, gofynnir i'r Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd os oes angen) benodi unigolyn perthnasol. Gall y penodiad hwn ddod o'r Datganiadau o Ddiddordeb a gafwyd yn y lle cyntaf ac o'r Gymrodoriaeth ehangach pan fo angen.

   Os nad oes amser i recriwtio aelod newydd:

b. Gall y cyfarfod fwrw ymlaen ac ystyrir pob penderfyniad yn ddilys os oes cyfanswm o 3 (Cymrodyr a/neu Gymrodyr er Anrhydedd) yn bresennol ac maent wedi cael cyfraniad ysgrifenedig gan y Cymrawd nad yw'n gallu bod yn bresennol. Dylai ei gyfraniad gynnwys ei sgoriau ac unrhyw gyfraniad arall i'w gyflwyno a'i rannu gyda'r pwyllgor cyn gynted ag y bo modd cyn y cyfarfod.

   Os nad yw'n bosibl cael cyfraniad gan y Cymrawd nad yw'n gallu bod yn bresennol:

c. Gall y cyfarfod gael ei aildrefnu i ddyddiad arall i sicrhau y gellir cyflawni'r cworwm - gan gynnwys recriwtio aelodau newydd os oes angen.

7. Pwyllgor Craffu Gyrfa Gynnar a Phwyllgor Craffu Gyrfa Sefydledig:

   Y cworwm ym mhob un o'r Pwyllgorau Craffu hyn yw pedwar (4). Gall hyn fod yn unrhyw gyfuniad o Gymrodyr ac aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Ymchwilwyr.

   Os bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Craffu yn sylweddoli na all fod yn bresennol, dylai gysylltu â staff CDdC i'w hysbysu cyn gynted â phosibl.

   Yna, gellir dilyn y prosesau canlynol:

a. Os bydd digon o amser i recriwtio aelod newydd, gofynnir i'r Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd os oes angen) benodi unigolyn perthnasol. Gall y penodiad hwn ddod o'r Datganiadau o Ddiddordeb a gafwyd yn y lle cyntaf ac o'r Gymrodoriaeth ehangach pan fo angen.

   Os nad oes amser i recriwtio aelod newydd:

b. Gall y cyfarfod fwrw ymlaen ac ystyrir pob penderfyniad yn ddilys os oes cyfanswm o 4 (Cymrodyr a/neu aelodau o'r Grŵp Cynghori ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr) yn bresennol ac maent wedi cael cyfraniad ysgrifenedig gan un unigolyn nad yw'n gallu bod yn bresennol. Dylai ei gyfraniad gynnwys ei sgoriau ac unrhyw gyfraniad arall i'w gyflwyno a'i rannu gyda'r pwyllgor cyn gynted ag y bo modd cyn y cyfarfod.

   Os nad yw'n bosibl cael cyfraniad gan yr unigolyn nad yw'n gallu bod yn bresennol:

c. Gall y cyfarfod gael ei aildrefnu i ddyddiad arall i sicrhau y gellir cyflawni'r cworwm - gan gynnwys recriwtio aelodau newydd os oes angen.

**Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu:**

8. Bydd Cymrawd yn bresennol fel 'Aelod Annibynnol' ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau i gynnig elfen ychwanegol o graffu a

chefnogaeth yn enwedig o ran ystyriaethau Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

9. Mae Pwyllgorau Craffu Medalau a Gwobrau yn gyfrifol am ystyried yr enwebiadau a dderbynnir ac am benderfynu pa rai sydd yn fwyaf teilwng i ennill y fedal neu'r wobr priodol.
10. Mae gan y Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau yr hawl i beidio â rhoi medal neu wobr os yw'n teimlo nad yw wedi derbyn enwebiadau digon safonol.
11. Dylid neilltuo'r un faint o amser i ystyried a thrafod pob enwebiad.
12. Darperir fframwaith sgorio i hwyluso trafodaeth a chofnodi'r penderfyniadau a wneir. Gall pwyllgorau ei gwblhau drwy roi un sgôr cyfun, neu drwy sgorio'n unigol a chyfuno'r sgorau wedyn.
13. Mae'r fframwaith sgorio yn cynnwys diffiniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gyfer gofynion allweddol yn y broses.
14. Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor Craffu hawliau pleidleisio cyfartal (ac eithrio'r Aelod Annibynnol).
15. Bydd aelod o staff y Gymdeithas yn bresennol ym mhob cyfarfod er mwyn cofnodi penderfyniadau, cwblhau'r fframwaith sgorio terfynol a rhoi cefnogaeth fel bo'n briodol.
16. Ar gyfer medalau Dillwyn, mae adborth ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer pob enwebiad aflwyddiannus y gellir ei ddarparu i'r ymgeisydd (Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar) drwy ei enwebydd.
17. Dylid cyflwyno taflenni sgorio terfynol i'w prosesu gan staff perthnasol y Gymdeithas, a chysylltu ag enwebwyr ac ymgeiswyr fel bo'n briodol.
18. Dylid datgan gwrthdaro buddiannau:

    a. Cyn y cyfarfod, bydd pob aelod yn asesu'r rhestr enwebeion ar gyfer eu pwyllgor craffu i ganfod unrhyw wrthdaro buddiannau. Os canfyddir buddiant, bydd yr aelod perthnasol yn hysbysu staff CDdC.

    b. Os bydd gwrthdaro buddiannau rhwng y Cadeirydd ac enwebiad, bydd yr Is-gadeirydd yn arwain proses werthuso'r enwebiad hwnnw ac ni fydd y Cadeirydd yn cymryd rhan yn nhrafodaeth yr unigolyn hwnnw.

    c. Ym mhob achos, ni fydd yr aelod(au) sy'n datgan gwrthdaro buddiannau yn cael cymryd rhan yn y drafodaeth am yr enwebiad perthnasol, nac unrhyw bleidlais ar ei gyfer, nac ychwaith dylanwadu ar y drafodaeth na'r bleidlais; hefyd, mae'n rhaid iddo/iddynt adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r broses sgorio.

    ch. Ni chaiff aelod pwyllgor sy'n adnabod enwebai ychwanegu unrhyw wybodaeth bersonol am yr unigolyn hwnnw nad yw wedi'i datgan yn y ffurflenni enwebu, ond caiff roi sylw ar yr hyn sydd ar y ffurflen enwebu os caiff wahoddiad gan y cadeirydd i wneud hynny.

    d. Ym mhob cyfarfod pwyllgor, bydd y Cadeirydd yn galw am ddatganiadau o fuddiant eto cyn i aelodau ddechrau adolygu'r enwebiadau. Mae'n rhaid i aelodau ddatgan unrhyw ddatganiad o fuddiant sydd o'r fath a nodir

uchod, neu unrhyw fuddiant perthnasol arall mewn enwebiad os nad yw eisoes wedi gwneud hynny.